Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Ionawr 2026

# Arholiad CDLl Newydd Caerdydd

## CD01 Ymateb y Cyngor i Gwestiynau a Godwyd gan yr Arolygwyr yn ID01




www.cdllcaerdydd.co.uk

02920 872087

CDL@caerdydd.gov.uk


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

**CD01 Ymateb y Cyngor i Gwestiynau a Godwyd gan yr Arolygwyr yn ID01**

## Cwestiwn 1 gan yr Arolygwyr

Mae papur Edge Analytics, Demograffeg y CDLl - Diweddaru'r Dystiolaeth, dyddiedig 2021, wedi ei seilio ar sefyllfaoedd 2014 a 2018 Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol: yn seiliedig ar 2022 ym mis Tachwedd 2025. Fe welwch yr amcanestynnir y bydd gan Gaerdydd yr ail gynnydd canrannol uchaf yn nifer yr aelwydydd rhwng 2022 a 2032 911 (11.1%).

*Darparwch dystiolaeth wedi'i diweddaru yn seiliedig ar amcanestyniadau 2022. Bydd angen diweddaru'r Papur Cefndir Tai (Chwefror 2025) hefyd os gwelwch yn dda.*

## Ymateb y Cyngor

Gallwn gadarnhau ein bod eisoes wedi trafod diweddariad i Bapur Demograffeg y CDLlN gydag Edge ac wedi eu comisiynu i ddiweddaru'r papur gan ystyried yr amcanestyniadau diweddaraf 2022 a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025. Mae Edge yn edrych i gwblhau hyn erbyn diwedd mis Mawrth.

Rydym yn cadarnhau y byddwn hefyd yn diweddaru'r Papur Cefndir Tai.

## Cwestiwn 2 gan yr Arolygwyr

*A wnaeth y Cyngor lunio astudiaeth capasiti trefol i gefnogi strategaeth y CDLlN 'i ddiwallu'r rhan fwyaf o'r tir ar gyfer tai sydd ei angen yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 2036 drwy ystod o safleoedd tir llwyd o fewn ffin bresennol yr anheddiad.' (CDLlN 5.13). Os felly, a ellir ei hychwanegu at y sylfaen dystiolaeth os gwelwch yn dda? Os na, hoffai'r Archwilwyr wybod pam?*

## Ymateb y Cyngor

Mae capasiti trefol yn cael ei godi yn y Papur Technegol Cefndir Rhif 1 - Tai Mae hwn yn nodi ac yn meintioli ffynonellau posibl o gapasiti tai newydd yn y ddinas dros gyfnod y cynllun, yn nodi newidiadau eraill yn y stoc bresennol a fydd yn effeithio ar gyfanswm anheddau yn y ddinas ac yn dangos y bydd cyflenwad digonol o dai addas ar gael i ddarparu ar gyfer y gofyniad annedd a gyflwynir yn y cynllun.

Mae'r papur yn nodi'r ffynonellau cyflenwi presennol ac yn ffactora hefyd lwfans diffyg cyflawniad. Mae'n nodi colledion posibl i'r cyflenwad tai trwy ddymchweliadau a newidiadau defnydd o ddefnydd preswyl a ffynonellau cyflenwi ychwanegol posibl trwy addasiadau preswyl a safleoedd annisgwyl mawr a bach. Mae'n ffactora i'r cyflenwad y dyraniadau a gynigir yn y cynllun ac yn nodi cyfanswm cyflenwad tai net a balans gweddilliol yn Ffigur 11 y Papur.

Yn ogystal â hyn, mae Taflwybr Tai wedi'i gyflwyno yn Atodiad 7 y Cynllun Adneuo sydd yn nodi manylion am y gyfradd adeiladu a ragwelir ac unrhyw safleoedd yr amcangyfrifir y cânt eu hadeiladu y tu hwnt i ddiwedd cyfnod y cynllun yn 2036. Hefyd mae'r Papur Technegol Cefndir 10 Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol yn nodi ystod o safleoedd ymgeisiol

tir llwyd sydd wedi'u lleoli o fewn ffin yr anheddiad sydd mewn egwyddor yn cefnogi Strategaeth y CDLlN ond nad ydynt wedi'u treiglo ymlaen i'r Cynllun Adneuo a allai ddod ger bron yn ystod cyfnod y cynllun.

## Cwestiwn 3 gan yr Arolygwyr

*Yn ogystal, mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (5.125) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynllun Seilwaith gael ei lunio i ddangos sut y bydd seilwaith o ran y capasiti, y lleoliad, y cyllid a'r amseriad priodol ar waith i gefnogi gweithredu a chyflawni'r CDLl. Os oes Cynllun Seilwaith wedi'i lunio, dylid ei gynnwys yn y sylfaen dystiolaeth. Os nad oes Cynllun Seilwaith, hoffai'r Arolygwyr wybod sut mae'r Cyngor yn bwriadu dangos y bydd y seilwaith hanfodol ac angenrheidiol a restrir ym Mholisi SP5 yn cael ei 'ddarparu' mewn modd amserol i ddiwallu anghenion cymunedau presennol a chynlluniedig.'*

## Ymateb y Cyngor

O ran Seilwaith, yn gyntaf, mae'n bwysig cydnabod bod elfen fawr o'r angen tai (71% - ym mis Chwefror 2025) eisoes wedi'i chwblhau neu wedi ei ymrwymo trwy ganiatâd cynllunio a'r seilwaith angenrheidiol wedi'i nodi a'i sicrhau trwy gytundebau A106. Yn ogystal, mae'r dyraniadau tai maes glas gweddilliol yn rhan o ymrwymiadau tai maes glas mwy ac mae'r gofynion seilwaith ar gyfer yr ardaloedd hyn wedi'u nodi yn yr uwchgynlluniau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr ardaloedd hyn.

Yn ail, rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda darparwyr seilwaith ar baratoi'r cynllun gan gynnwys partneriaid allanol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, y Bwrdd Iechyd Lleol, Dŵr Cymru, Trafnidiaeth Cymru a chwmnïau Cyfleustodau a phartneriaid mewnol fel adrannau Trafnidiaeth, Addysg, Parciau, Gwastraff, Tai ac Adfywio'r Cyngor. Nid oes unrhyw faterion sylweddol wedi'u codi gan y darparwyr seilwaith hyn ar strategaeth y cynllun. Mae rhagor o fanylion am y gofynion seilwaith a nodir ym Mholisi SP5 wedi'u cynnwys yn y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio presennol a bydd hwn yn cael ei adolygu lle bo angen ar ôl mabwysiadu'r cynllun. I gefnogi'r cynllun, rydym hefyd wedi paratoi astudiaethau sylfaen dystiolaeth gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â hyfywedd, perygl llifogydd a seilwaith gwyrdd a phapurau pwnc gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â Trafnidiaeth, Iechyd a Llesiant a Gwastraff.

Yn olaf, bydd Polisi SP3 Sicrhau Ymagwedd Uwchgynllunio i'r Cynllun Adneuo yn sicrhau y bydd unrhyw safleoedd tir llwyd a ddaw ger bron yn y dyfodol yn cynnwys darparu seilwaith a chyfleustodau angenrheidiol.

## Cwestiwn 4 gan yr Arolygwyr

*Yn eich ymateb i sylwadau CNC ar yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (ACLlS), rydych yn cydnabod y dylid cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn yr ACLlS (Rep 118/42). Mae CNC yn gofyn am ragor o wybodaeth yn yr ACLlS yn ymwneud â rhai dyraniadau ynghylch y posibilrwydd o doriad neu orlifo dros amddiffynfeydd llifogydd o fewn Parth Amddiffynedig NCT 15. Hoffai'r Arolygwyr wybod pryd y bydd ACLlS wedi'i ddiweddaru ar gael.*

## Ymateb y Cyngor

Rydym wedi comisiynu JBA i gynhyrchu ACLlS wedi'i ddiweddaru gan ystyried y sylwadau a wnaed gan CNC ar y Cynllun Adneuo. Mae'r gwaith hwn ar y gweill ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn dechrau mis Ebrill.